Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gwynllyw
# Heol Folly
# Trefddyn
# Pontypool
# Torfaen
# NP4 8JD

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Ysgol Gyfun Gwynllyw

Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn ysgol gyfun ddynodedig Gymraeg i fechgyn a merched 11-18 mlwydd oed a gaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Torfaen. Ar hyn o bryd, mae 837 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 123 yn y chweched dosbarth, sydd ychydig yn is o'i gymharu â 989 adeg yr arolygiad diwethaf. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch eang ac yn darparu addysg cyfrwng Gymraeg ar gyfer disgyblion o awdurdodau lleol cyfagos.

Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn. Daw tua 6% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Fodd bynnag, gan fod y disgyblion yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd, mae bron pob un ohonynt yn rhugl yn y Gymraeg erbyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd. Mae 13.10% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim sydd yn is na'r ffigwr cyfartalog ar gyfer Cymru o 16.4%

Mae 23.3% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigwr hwn yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol (22.9%). Mae gan 1.4% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol (2.2%).

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2017. Mae'r uwch dîm rheoli wedi'i aildrefnu'n ddiweddar. Bellach mae'n cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol a dau bennaeth cynorthwyol cysylltiol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn gymuned glos sy’n cynnig gofal a chefnogaeth addas i’w disgyblion. Yn gyffredinol, mae’r ethos cynhaliol yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn mynychu’n rheolaidd ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

Dros y pedair blynedd diwethaf nid yw arweinwyr yr ysgol, gan gynnwys y corff llywodraethol, wedi arddangos y gallu i sicrhau’r gwelliant angenrheidiol. Nid ydynt wedi cynnig arweiniad digon clir i staff ar sut i gynnal na chodi safonau na sicrhau addysgu o ansawdd cyson dda. Nid yw’r ysgol yn hunanwerthuso yn fanwl-gywir a thrylwyr. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data perfformiad a gwerthuso safonau dysgu ac ansawdd yr addysgu.

Mae diffygion yng nghynllunio llawer o athrawon yn golygu nad yw disgyblion, ar y cyfan, yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwersi. Nid yw disgwyliadau athrawon o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel.

Nid yw’r ysgol yn cynllunio’n ddigon gofalus ar gyfer datblygu medrau disgyblion, yn enwedig llythrennedd. Prin yw’r cyfleon i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn pynciau perthnasol ar wahân i fathemateg. Mae cyfleon i ddisgyblion ddatblygu medrau TGCh yn gyfyngedig ar draws y pynciau.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig safonau bechgyn a disgyblion mwy abl

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A4 Gwella ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth ar bob lefel

A5 Gwella'r trylwyredd ac effeithiolrwydd y prosesau gwella ansawdd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

Safonau: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys

Yn eu gwersi, mae mwyafrif y disgyblion yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn briodol ac mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau pynciol. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth yn fedrus. Mae cyflawniad disgyblion yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi dirywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ac yn nodedig is na pherfformiad mewn ysgolion tebyg.

Mewn llawer o wersi mae disgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac ar safbwyntiau disgyblion eraill. Pan gânt y cyfle, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ymateb yn frwd i gwestiynau'r athro ac yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau dosbarth, er enghraifft yn addysg grefyddol mae disgyblion yn mynegi eu hunain yn huawdl wrth drafod agweddau crefyddol tuag at faterion yn ymwneud â pherthnasoedd teuluol. Fodd bynnag, mae mwyafrif y disgyblion yn dueddol o fod yn dawedog ac yn cynnig atebion byr a chyfyngedig pan gânt eu holi gan athrawon.

Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn ystyrlon. Maent yn lleoli ffeithiau yn llwyddiannus wrth ddarllen testunau, er enghraifft, yn eu gwersi Saesneg wrth esbonio sut y daeth Lewis Hamilton yn yrrwr ceir rasio ffigwr enwog a llwyddiannus. Lleiafrif o ddisgyblion sy'n arddangos uwch fedrau darllen effeithiol, er enghraifft wrth ddadansoddi cynnwys a nodweddion arddull mewn testunau ac esbonio'u heffaith ar y darllenydd.

Ar y cyfan, mae gan y mwyafrif o ddisgyblion reolaeth ar eu hysgrifennu gan baragraffu a chyflwyno eu syniadau yn drefnus. Mae tua hanner y disgyblion yn datblygu'n effeithiol fedrau ysgrifennu annibynnol, er enghraifft yn hanes wrth ymdrin â daliadau crefyddol Harri'r 8fed. Mae gwallau iaith yn britho gwaith llawer o ddisgyblion.

Ar draws yr ystod oedran, mae tua hanner y disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio eu medrau rhif. Mae lleiafrif o'r dysgwyr yn ansicr o'u tablau neu wrth luosi a rhannu rhifau cyfan a degolion. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn cymhwyso eu medrau rhif yn effeithiol er mwyn datrys problemau pob dydd. Mae llawer o ddisgyblion yn casglu data ac yn llunio graffiau addas, er enghraifft i ddangos y pellter mae disgyblion yn teithio i'r ysgol ond lleiafrif ohonynt sy'n defnyddio'r graffiau er mwyn dod i gasgliad.

Nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn briodol, er enghraifft wrth gydweithio mewn grwpiau bychain i lunio sgript wreiddiol a'i pherfformio mewn gwersi drama.

Mae ychydig o ddisgyblion yn arddangos medrau meddwl effeithiol, er enghraifft yn Saesneg mae disgyblion yn cymhwyso eu dysgu blaenorol i ddehongli tystiolaeth mewn sefyllfa anghyfarwydd wrth feddwl am wrthrychau a ddarganfyddwyd ar ynys bellennig.

Mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wedi dirywio’n flynyddol dros y pedair blynedd diwethaf ac mae’n is na pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Mae cyflawniad y disgyblion yn y sgôr pwyntiau wedi’i chapio yn is na mewn ysgolion tebyg ers pedair blynedd. Mae perfformiad y disgyblion yn y dangosyddion lefel 1 a 2 yn gyson is na pherfformiad ysgolion tebyg dros yr un cyfnod. Yn y dangosydd lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae perfformiad disgyblion wedi bod yn nodedig is na mewn ysgolion tebyg yn y tair blynedd diwethaf. Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 5 gradd TGAU A*-A neu gyfwerth wedi dirywio’n sylweddol ers 2015 ac yn 2018 mae’n nodedig is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad bechgyn wedi dirywio yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 ac wedi bod yn is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o ddangosyddion dros y tair blynedd diwethaf. Ar y cyfan, mae perfformiad merched wedi bod yn debyg i berfformiad merched mewn ysgolion tebyg dros amser. Serch hynny, mae eu perfformiad yn 2018 yn wannach na pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg ym mron pob dangosydd.

Mae perfformiad y disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn gyfnewidiol dros amser. Mae eu perfformiad naill ai’n debyg neu’n well na’u cyfoedion mewn ysgolion tebyg yn y mwyafrif o ddangosyddion ac yn well yn y Gymraeg mewn tair o’r pedair blynedd diwethaf. Ychydig o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sydd yn ennill cymhwyster lefel 2 yn y pynciau craidd.

Nid oes disgybl wedi gadael yr ysgol yn ddigymhwyster yn y pedair blynedd diwethaf.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach a chyfran y disgyblion sy’n ennill 3 gradd A*-C yn gryf dros amser ac yn well na pherfformiad mewn ysgolion tebyg yn nhair o’r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf ond mae’n parhau’n debyg i berfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 3 gradd A*-A neu gyfwerth wedi cryfhau dros amser ac yn debyg i berfformiad mewn ysgolion tebyg.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod at bwy y gallant droi os bydd angen help arnynt. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Mae ymddygiad llawer o ddisgyblion yn dda yn ystod gwersi, gwasanaethau ac o gwmpas yr ysgol. Ar y cyfan, mae disgyblion yn dangos parch teilwng tuag at athrawon, ymwelwyr a chyfoedion. Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd ychydig iawn o ddisgyblion yn camymddwyn gan darfu ar eu dysgu eu hunain ac ar ddysgu disgyblion eraill. Nid yw mwyafrif y disgyblion yn teimlo bod ymddygiad disgyblion eraill yn ddigon da yn y dosbarth nac yn ystod amser egwyl a chinio.

Mewn gwersi, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon, ymdawelu’n gyflym ac yn barod i ddysgu. Mae’r mwyafrif ohonynt yn dangos diddordeb yn y gwaith ac yn ymfalchïo yn yr hyn maent yn ei gyflawni. Serch hynny, mae lleiafrif o’r disgyblion yn rhy oddefol mewn gwersi ac nid ydynt yn arddangos gwydnwch na dyfalbarhad wrth ymroi i’w gwaith. Pan gânt y cyfle, mae llawer o’r disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol buddiol wrth gydweithio mewn parau neu grwpiau bychain.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n fuddiol eu dealltwriaeth o sut i wneud dewisiadau iach o ran diet a gweithgarwch corfforol. Mae tua hanner y disgyblion yn elwa ar gymryd rhan yn rheolaidd mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol allgyrsiol, fel rygbi, pêl-rwyd, dawns a gymnasteg. Maent yn elwa'n ogystal ar ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol gan gynnwys sioe gerdd boblogaidd ddiweddar a chystadlaeuaeth siarad cyhoeddus.

Mae llawer o ddisgyblion yn cefnogi amrywiaeth o elusennau yn frwdfrydig. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda. Er enghraifft, maent yn codi arian i elusennau lleol a chenedlaethol fel ysbyty cancr leol a Plant Mewn Angen.

Mae ychydig o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain yn bwrpasol, trwy gyfrannu at bwyllgorau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion fel goddefgarwch ac iechyd a lles. Er enghraifft, maent yn codi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb rhywiol a chefnogi mentrau sy'n fuddiol i iechyd meddwl eu cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol, gwybodus a goddefgar.

Er bod y cyngor ysgol a'i is-bwyllgorau'n gweithio'n ddiwyd, nid yw eu hymdrechion wedi cael digon o effaith ar wella agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Nid yw tua hanner y disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ac yn gweithredu ar eu barn.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros amser ac yn 2018 roedd perfformiad yr ysgol yn well nag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae canran absenoldebau cyson wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi gostwng dros yr un cyfnod.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer sicrhau cynnydd yn nealltwriaeth pynciol disgyblion ar sail eu cyflawniad blaenorol. Gosodir tasgau heriol, pwrpasol sydd yn ysgogi'r dysgu. Yng ngwersi'r athrawon hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae diffygion yng nghynllunio llawer o athrawon yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn medrau pynciol. Nid yw disgwyliadau athrawon o beth y gall disgyblion gyflawni yn ddigon uchel. Mae'r diffygion yn cynnwys gosod tasgau undonog nad ydynt yn llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion nac yn cynnig digon o her iddynt. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar y safonau mae disgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn eu cyflawni.

Mae llawer o athrawon yn sefydlu perthynas weithio briodol gyda'u disgyblion ac maent yn llwyddo i greu amgylchfyd cefnogol yn eu dosbarthiadau. Gan amlaf, maent yn gwneud defnydd priodol o adnoddau gweledol a digidol i gefnogi eu haddysgu.

Mewn tua hanner o'r gwersi, mae athrawon yn cyfathrebu'n glir, yn modelu iaith yn gywir ac yn rhoi cyflwyniadau ac esboniadau priodol. Yn y gwersi eraill, nid yw athrawon yn gosod meini prawf clir nac yn egluro gofynion tasgau yn ddigon manwl. Yn rhy aml, mae gwallau iaith yn eu cyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig.

Mewn llawer o wersi, nid yw'r addysgu yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl. Mae athrawon yn y gwersi hyn yn cyflwyno'n ormodol, yn gor-reoli'r dysgu ac nid ydynt yn creu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gydweithio â'i gilydd. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu'n ddigonol eu gallu i weithio'n annibynnol.

Mae llawer o athrawon yn cylchu eu dosbarthiadau i wirio a chynnig sylwadau addas ar ansawdd gwaith disgyblion. Yn yr ychydig o achosion gorau, mae'r sylwadau yn bwrpasol a miniog ac yn dangos yn glir i ddisgyblion sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae athrawon yn gorganmol gwaith o safon cyffredin ac nid ydynt yn rhoi digon o gyfarwyddyd i ddisgyblion sut i godi safon eu gwaith.

Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn cwestiynu'n fedrus a threiddgar i brocio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i feddwl yn ddwys ac i ddatrys problemau. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd athrawon wrth holi cwestiynau yn amrywio'n ormodol o fewn ac ar draws pynciau.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth defnyddiol wrth nodi cryfderau a gwendidau darnau penodol o waith disgyblion yn eu llyfrau. Ar y cyfan, mae disgyblion yn ymateb yn foddhaol i'r cyngor hwn. Fodd bynnag, mae sylwadau athrawon ar ddarnau eraill o waith disgyblion yn arwynebol, yn rhy hael ac nid ydynt yn cynnig digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith.

Mae'r cwricwlwm yn cwrdd â gofynion statudol ac mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth addas o gyrsiau a chyfleoedd i ddysgwyr. Mae arweinwyr yn ymgynghori â'r disgyblion ac yn ymateb yn briodol i'w dymuniadau. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cynyddu'n briodol yr ystod o ddewisiadau i ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth er mwyn cwrdd ag anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr ac anghenion cyflogaeth lleol. Mae hyn yn cynnwys mwy o gyrsiau galwedigaethol perthnasol, er enghraifft cyrsiau lletygarwch, arlwyo a meysydd gofal. Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen addysg amgen addas i ddisgyblion sydd mewn perygl o ddadrithio yng nghyfnod allweddol 3.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion cynradd partner i drefnu gweithgareddau pontio addas sydd yn sicrhau bod dysgwyr yn ymgartrefu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau i sicrhau dilyniant o safbwynt datblygiad medrau disgyblon o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yn ddigon cadarn.

Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn annatblygedig. Nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon gofalus ar gyfer datblygu'n gynyddol fedrau disgyblion, yn enwedig llythrennedd. Nid oes digon o gyfle i ddisgyblion ddatblygu medrau llafar a phrin iawn yw'r cyfleoedd i ddatblygu uwch fedrau darllen mewn pynciau ag eithrio'r Gymraeg a Saesneg. Mewn ychydig o bynciau mae athrawon yn gosod tasgau cyfoethog, pwrpasol sy'n caniatáu i ddisgyblion ddatblygu medrau ysgrifennu cadarn iawn. Mewn llawer o bynciau mae strwythur y taflenni gwaith a ddarperir gan athrawon yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. Prin yw'r cyfleon i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn pynciau addas ar wahân i fathemateg. Mae cyfleon cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu medrau TGCh ar draws y pynciau.

Mae gan yr ysgol raglen ymyrraeth addas ar gyfer cefnogi disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan ond nid oes trefniadau digon cadarn ar waith i werthuso effaith y rhaglenni hyn. Darperir rhaglenni perthnasol i gyfoethogi medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol ond nid yw arweinwyr yn monitro ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae cyfleoedd i ddathlu Cymreictod ac ymwybyddiaeth disgyblion o draddodiadau ac etifeddiaeth Cymru yn briodol. Er enghraifft, trefnir ymweliadau buddiol gan feirdd a cherddorion adnabyddus, dethlir Dydd Miwsig Cymru ac mae'r ysgol yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen eang o brofiadau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau disgyblion megis gweithgareddau chwaraeon a pherfformio. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i wella eu Cymraeg drwy weithgareddau preswyl yng nghanolfan yr Urdd yng Nglan-llyn ac ymweliadau â Thresaith. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o deithiau tramor diddorol i gefnogi'r dysgu, er enghraifft teithiau hanes i wersyll Auschwitz ac i Efrog Newydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn gymuned glos sy'n cynnig gofal a chefnogaeth addas i'w disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r ethos cynhaliol yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn mynychu'n rheolaidd ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Fodd bynnag nid yw'r gofal, cymorth a'r arweiniad a gynigir i ddisgyblion wedi llwyddo i fynd i'r afael â thangyflawniad disgyblion, yn enwedig ymhlith y bechgyn ac agweddau ar bresenoldeb.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi sefydlu system olrhain cynnydd academaidd fuddiol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i adnabod disgyblion sy'n tangyflawni ac maent yn trefnu cefnogaeth addas. Fodd bynnag, ni fu trefniadau'r ysgol i osod targedau ac olrhain cynnydd disgyblion yn ystod y cyfnod diweddar yn ddigon effeithiol ac nid ydynt wedi arwain at godi safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae targedau'r ysgol yn rhy isel ac nid ydynt yn cyfleu digon o uchelgais wrth ystyried safle'r ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol yn olrhain presenoldeb disgyblion yn gyson ac yn gweithio'n effeithiol, ar y cyfan, gyda rhieni er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd. O ganlyniad, mae presenoldeb yr ysgol gyfan wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf. Serch hynny, dros yr un cyfnod, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi dirywio a chanran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi cynyddu.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, mae cynlluniau addysg unigol ynghyd â llawlyfr i staff yn rhannu gwybodaeth fuddiol er mwyn cynllunio a darparu ar gyfer anghenion yr unigolion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gweithredu'n ddigon cyson ei threfniadau i olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau unigol.

Mae canolfan yr 'Hafan' yn darparu cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion sy'n profi anawsterau emosiynol, meddygol a chymdeithasol. Yn ystod amser egwyl a chinio, mae'r 'Clwb Cwtsh' yn cynnig man diogel lle mae disgyblion bregus yn manteisio ar

brofiadau gwerthfawr i gymdeithasu ac ymlacio. Mae'r ysgol yn cyd-weithio yn briodol ag amrywiaeth addas o asiantaethau a phartneriaid i ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dwys.

Mae cyswllt priodol gydag ysgolion partner eraill er mwyn sicrhau gofal a chymorth a hwyluso trefniadau anghenion dysgu ychwanegol wrth i ddisgyblion drosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

Mae'r ysgol wedi diwygio adroddiadau i rieni'n bwrpasol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiadau llawn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am gryfderau a gwendidau yng ngwaith y disgyblion. Yn gyffredinol, nid yw'r targedau a nodir ar gyfer cynnydd disgyblion dros amser yn ddigon heriol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ffordd iach o fyw. Er enghraifft, mae unedau o waith addas yn y rhaglen meddwlgarwch a lles ar gyfer cyfnod allweddol 3 yn delio gyda meysydd dilys o gadw'n iach a heini. Yn ogystal, ceir cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr mewn chwaraeon fel rygbi, pêl-rwyd, dawns a gymnasteg. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, a chaiff disgyblion gyfle addas i ddylanwadu ar yr arlwy yn y ffreutur.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau yn yr ysgol drwy rwydwaith o saith is-gyngor, er enghraifft y 'Cyngor Cymreictod' a'r cyngor eco. Fodd bynnag, nid yw'r is-gynghorau wedi cael effaith ddigonol ar waith yr ysgol. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynyddu eu hymwybyddiaeth o'u diwylliant eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd rhan mewn sioe gerdd, eisteddfodau ac ymweliadau â Glanllyn a Thresaith i hybu Cymreictod. Yn ogystal, mae'r ysgol yn darparu profiadau buddiol o'r byd ehangach. O fewn y cwricwlwm, ym Mlwyddyn 9 astudir hanes Berlin ac yn naearyddiaeth astudir agweddau ar yr amgylchedd. Yn allgyrsiol ceir ystod o ymweliadau pwrpasol, gan gynnwys ag Efrog Newydd ac Auschwitz. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cymwys i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol gan gynnwys y clybiau cerddorol yn ystod amser cinio, y gweithgareddau eisteddfodol, a chyngherddau'r côr.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addas o addysg bersonol a chymdeithasol, drwy, er enghraifft y gwersi meddwlgarwch a lles yng nghyfnod allweddol 3. Ceir darpariaeth effeithiol yn yr ysgol sy'n hyrwyddo diwylliant o oddefgarwch a pharch, gan gynnwys cydweithio gyda sefydliad allanol i gynhyrchu ffilm ar faterion rhywioldeb a'r cyflwyniadau 'Munud i Feddwl' boreol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Dros y pedair blynedd diwethaf, nid yw arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel wedi llwyddo i gynnal na sicrhau gwelliant mewn agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Yn

ystod y deunaw mis diwethaf, mae'r pennaeth wedi creu strwythur rheoli cliriach gan ddiwygio rolau a chyfrifoldebau aelodau'r uwch dîm arwain. Serch hynny, nid yw'r uwch dîm arwain wedi cynnig arweiniad digon clir i staff ar osod disgwyliadau uchel o ran codi safonau disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu. Nid ydynt ychwaith wedi sicrhau digon o gynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys cynllunio yn ôl y fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Ar y cyfan, nid yw arweinwyr canol yn ymgymryd â'u rolau yn effeithlon nac yn deall eu cyfrifoldebau o safbwynt sicrhau gwelliant yn ddigon manwl. Mae dealltwriaeth ac effeithiolrwydd arweinwyr pwnc o ran sicrhau safonau uchel a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu meysydd cyfrifoldeb yn amrywio gormod. Yn ddiweddar, mae'r penaethiaid cynnydd wedi ehangu eu rôl yn briodol i gynnwys cyfrifoldeb am gynnydd academaidd disgyblion yn ogystal â materion bugeiliol. Mae'n rhy gynnar i weld effaith y strategaeth hon.

Mae strwythur rheolaeth linell clir a chalendr o gyfarfodydd rheolaidd rhwng arweinwyr yn dechrau cynyddu atebolrwydd arweinwyr canol. Er bod camau gweithredu yn dilyn y mwyafrif o'r cyfarfodydd hyn, nid yw'r trafodaethau yn canolbwyntio digon ar ansawdd yr addysgu na datblygu medrau disgyblion.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn galluogi'r arweinwyr i nodi anghenion hyfforddi unigolion yn briodol. Serch hynny, mewn llawer o achosion, nid yw'r targedau personol yn rhoi digon o bwyslais ar wella ansawdd yr addysgu. Yn gyffredinol, nid yw'r targedau sy'n ymwneud â pherfformiad disgyblion yn fesuradwy nac yn ddigon uchelgeisiol. O ganlyniad, nid yw'r broses yn ddigon trylwyr i ddwyn staff i gyfrif yn llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol a'r uwch dîm arwain. Mae'n datblygu ei rôl fel cyfaill beirniadol ac yn dechrau herio'r uwch dim ar berfformiad yr ysgol. Mae gan aelodau'r corff ddealltwriaeth addas o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Fodd bynnag, yn hanesyddol nid ydynt wedi herio'r ysgol yn ddigonol mewn perthynas â meysydd allweddol lle bu tanberfformiad, er enghraifft safonau yng nghyfnod allweddol 4 ac ansawdd yr addysgu. Yn y gorffennol, nid ydynt yn dwyn arweinwyr uwch na chanol i gyfrif yn ddigon trylwyr.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu a gwella ei systemau hunanwerthuso. Cytunwyd ar galendr pwrpasol gan staff ac arweinwyr sy'n amlinellu'r gweithgareddau a'r dyddiadau pwysig ar eu cyfer. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys prosesau defnyddiol i fonitro gwaith y disgyblion a safon yr addysgu. O ganlyniad, mae'r disgwyliadau yn glir i bawb. Serch hynny, mae'r prosesau yn weddol newydd ac nid ydynt wedi cael amser i effeithio ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4 nac ar ansawdd yr addysgu ar draws pob pwnc.

O ganlyniad i'r newidiadau yn y systemau sicrhau ansawdd, mae gan uwch dîm arwain yr ysgol ddealltwriaeth briodol o berfformiad yr ysgol, gan gynnwys safonau disgyblion a safon yr addysgu. Maent hefyd yn dechrau defnyddio'r canfyddiadau hyn yn briodol er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Mae deilliannau prosesau hunanwerthuso adrannol yn amrywio gormod o ran manylder a defnyddioldeb. Ar y cyfan, nid yw arweinwyr pwnc yn dadansoddi data perfformiad yn ddigon manwl, er enghraifft nid ydynt yn ystyried perfformiad eu

disgyblion o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg.  Nid yw rheolwyr canol yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth a ddaw o'r prosesau hunanwerthuso i godi safonau disgyblion a safon yr addysgu.  Er enghraifft, nid ydynt yn dadansoddi data'n ddigon manwl i adnabod grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni.  Nid yw'r ysgol yn gwerthuso'r dysgu ac addysgu yn fanwl ac wrth gynllunio gwelliant nid yw'n talu digon o sylw i ddatblygu addysgeg ar draws yr adrannau.

Nid yw arweinwyr wedi blaenoriaethu'n briodol ddatblygiad proffesiynol aelodau staff yr ysgol.  Er bod hyfforddiant ysgol gyfan yn cwmpasu meysydd addas, nid yw arweinwyr yn cynllunio'r hyfforddiant hwn yn ddigon strategol.  Nid oes cyswllt digon clir rhwng meysydd hyfforddiant a'r diffygion sydd wedi'u hadnabod trwy brosesau hunanwerthuso.  Nid oes trefniadau pendant i fonitro effaith hyfforddiant ar ansawdd yr addysgu.

Mae'r pennaeth, bwrsar ac is-bwyllgor y corff llywodraethol yn monitro'r cyllid yn ofalus.  Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol ac mae bron pob athro'n addysgu o fewn eu harbenigedd.  Defnyddir staff gweinyddol ac ategol yn effeithiol i gefnogi'r athrawon a'r disgyblion.  Mae lefelau absenoldeb uchel ymhlith staff ac mae'r defnydd helaeth o athrawon cyflenwi wedi cael effaith negyddol ar ansawdd y dysgu a'r  addysgu.

Mae effaith y defnydd o'r grant datblygu disgyblion yn anghyson.  Dros amser, nid yw wedi arwain at welliannau digon cyson ym mhresenoldeb a pherfformiad  disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/06/2019